

Cyngor Cymuned Mawddwy

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.

 01650 531 405

E bost: huwjones792@btinternet.com

21ain Awst 2023

Annwyl Gyfaill

CYNHELIR CYFARFOD nesaf CYNGOR CYMUNED MAWDDWY Nos Fercher y 30ain o Awst am 8.00pm yn y Neuadd, Dinas Mawddwy.

Nodyn ar gyfer y cyhoedd. Mae croeso i'r cyhoedd arsylwi ar gyfarfodydd y Cyngor fel arfer, gan gynnwys gwneud hynny yn rhithiol os oes angen. (Deddf Llywodraeth Lleol ac Etholiadau 2021 Adran 47 – cyfarfod aml-leoliad) . Cysyllter â'r Clerc am fanylion o leiaf 3 diwrnod llawn cyn y cyfarfod, er mwyn sicrhau fod y trefniadau priodol mewn lle.

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

.....

AGENDA

1. Gair o groeso a derbyn ymddiheuriadau. Gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.
2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)
3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gyfarfu ar y 12fed o Orffennaf 2023 – gweler yn atodol.
4. **Materion yn codi,**
 - a) Materion Priffyrdd a Chefnffyrdd.
 - b) Hysbysfyrddau/ byrddau gwybodaeth – nodi y diweddaraf.
 - d) Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy – nodi y diweddaraf
 - e) Toiledau Dinas Mawddwy
 - f) Gwaith gan Adra yn y maes parcio yn Lawnt y Plas.

g) Rheolau sefydlog Cyngorau Cymuned.

5. Materion Cynllunio

NP5/74/L167J – Trosi capel yn dy a gosod ffenestri to ar edrychiad cefn y to presennol, adeiladu estyniad cefn unllawr newydd, a gosod uned trin carthion – **Capel Tarsus, Cwm Cywarch** – *wedi ei ddosbarthu eisoes, ac ymateb wedi ei ddanfon.*

6. Materion Cyllid.

Anfoneb gwasanaeth archwilio mewnol Cyngor Gwynedd am 22/23 - £246.00.

Cais am gymorth – Cerebral Palsy Cymru

7. Gohebiaeth

- Rhwydwaith cydraddoldeb sector gyhoeddus Gogledd Cymru – ymgynghoriad
- Hyfforddiant Cyngorwyr – e-bost I bawb 22ain Gorffennaf.
- Lansiad llwybrau Mawddwy – e-bost I bawb 18fed Awst.
- Cais gan Gyngor Cymuned Corris i gael cyfarfod i drafod cludo coed allan o'r ardal – posibiladau Corris/Aberllefenni/Aberangell

8. Unrhyw fater arall